Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 22AIN HYDREF, 2024

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

NODER

Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679556

rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Rhys Tudur
Elfed Wyn ap Elwyn
Jina Gwyrfai
Gwynfor Owen
Meryl Roberts
Menna Baines
Alan Jones Evans
Olaf Cai Larsen
Llio Elenid Owen
Elfed Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Peter Thomas
Sedd Wag
Hefin Underwood
Sedd Wag

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol – Y Gymraeg

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION 4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnody cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2024 fel rhai cywir.

5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG - ADRAN AMGYLCHEDD 11 - 16

I gyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran Amgylchedd i'r Strategaeth Iaith.

6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG - ADRAN GYLLID 17 - 20

I gyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran Gyllid i hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG - ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC 21 - 27

I gyflwyno gwybodaeth am weithrediad y Polisi Iaith a gweithgareddau hybu'r Gymraeg.

8. SESIYNAU YMGYSYLLTU I DRAFOD POLISI IAITH ADDYSG GWYNEDD 28

I ethol 5 cynrychilydd o'r Pwyllgor Iaith i fynychu'r Sesiwn Ymgysylltu.

PWYLLGOR IAITH: 25 MEHEFIN 2024

YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr:

Meryl Roberts, Peter Thomas, Menna Baines, Anne Lloyd Jones, Elfed Wyn ap Elwyn, Cai Larsen, Llio Elenid Owen, Jina Gwyrfai Alan Jones Evans, Elfed Williams a Rhys Tudur.

Swyddogion: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Llio Mai Dafydd a Bet Huws (Swyddogion Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

HEFYD YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd Menna Trenholme (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol).

Eitem 7: Alun Gwilym Williams (Uwch Reolwr Busnes, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) ac Aled Gibbard (Pennaeth Cynorthwyol Adnoddau, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)

Eitem 9: Meirion Macintyre Huws (Swyddog Prosiect Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg)

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Menna Baines yn gadeirydd y Pwyllgor Iaith ar gyfer y flwyddyn 2024/25.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Meryl Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Iaith am y flwyddyn 2024/25.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Gwynfor Owen a Nia Haf Lewis (Ymgynghorydd Iaith).

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

6. COFNODON

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2024 fel rhai cywir.

7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG – Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Busnes a Phennaeth Cynorthwyol Adnoddau. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol gan nodi bod yr Adroddiad yn cwmpasu gwaith yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd yn ogystal â'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant:

Esboniwyd bod yr Adroddiad yn cwmpasu gwaith y ddwy adran am y tro cyntaf oherwydd bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cyhoeddus yn arwain ar brosiect 'Mwy na geiriau' o fewn y maes Gofal.

Adroddwyd ar ddatblygiad Academi Gofal i geisio ymdopi â heriau recriwtio mae'r maes Gofal wedi bod yn ei wynebu yn ddiweddar. Manylwyd bod trafferthion recriwtio yn effeithio Awdurdodau Lleol ar hyd y wlad gyda heriau penodol mewn rhai meysydd ac ardaloedd daearyddol. Pwysleisiwyd mai nod yr Academi yw cynorthwyo unigolion i ddatblygu eu hunain ac amlygu llwybr gyrfaol clir o fewn y maes gofal. Esboniwyd y gobeithir cyrraedd y targedau hyn drwy gynnig cefnogaeth a hyfforddiant er mwyn sicrhau bod unigolion yn cymhwyso i fod yn ofalwyr drwy gyfrwng y Gymraeg boed ar gyfer swyddi Therapyddion Galwedigaethol, Rheolwr Cartref neu unrhyw agwedd arall o'r maes gofal. Mynegwyd balchder ar ddatblygiad y cynllun hwn gan nad yw hyfforddiant Cymraeg ar gael ym mhob agwedd o'r maes, megis prentisiaethau, ar hyn o bryd. Esboniwyd bod yr academi yn bodoli'n rhithiol ar hyn o bryd ond gobeithir cael lleoliad penodol yn y dyfodol.

Cydnabuwyd bod trafferthion recriwtio yn her sy'n wynebu'r ddwy Adran gan nodi bod y broblem yn dwysau wrth ymdrechu i benodi swyddi mwy arbenigol sydd gyda'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol. Tynnwyd sylw bod her benodol i'w gael yn y maes gofal cartref a gofal preswyl nyrsio oherwydd nid oes modd recriwtio digon sydyn i gyfarch y gofyn am y gwasanaethau. Pwysleisiwyd bod adrannau yn sicrhau eu bod yn parhau i roi hyfforddiant a chefnogaeth i holl weithwyr sydd angen cymorth gyda'r iaith Gymraeg ac yn nodi bod llenwi swyddi gwag a datrys yr heriau recriwtio yn flaenoriaeth iddynt. Sicrhawyd bod darparwyr gofal yn cael cefnogaeth y Cyngor er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn cael amser penodol o fewn oriau gwaith er mwyn meithrin eu sgiliau Cymraeg. Er hyn, cydnabuwyd bod y trefniant hwn yn ddibynnol ar y darparwyr hynny yn gweithredu yn ôl y gofyn.

Ymhelaethwyd bod yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi cael peth llwyddiant gydag ymgyrchoedd recriwtio yn ddiweddar ond cydnabuwyd bod heriau dal i'w gweld yn ardal Meirionnydd. Nodwyd mai her arall yw sicrhau lleoliadau preswyl Cymraeg i blant sy'n dymuno hynny gan fod yr holl leoliadau preswyl yn eiddo i'r sector breifat ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd bod gan y Cyngor gynlluniau i ddatblygu lleoliadau preswyl mewnol. Cydnabuwyd bod yr adran yn dilyn prosesau recriwtio'r Cynngor ac yn ystyried ymgeiswyr gyda sgiiau ieithyddol is os yw'r swydd yn cael ei hysbysebu am y drydedd gwaith. Os oes rhywun gyda sgiiau ieithyddol is na'r gofyn yn cael cynnig y swydd sicrheir bod rhaglen hyfforddiant Cymraeg yn cael ei weithredu ar ddechrau cyflogaeth yr unigolyn. Pwysleisiodd y ddwy adran eu bod yn ymdrechu i ddefnyddio staff asiantaeth cyn lleied â phosibl.

Sicrhawyd bod yr adrannau yn rhagweithiol er mwyn datrys yr heriau recriwtio hyn gan fanylu ar nifer o brosiectau sydd ar y gweill i ddenu gweithwyr cymdeithasol megis yr Academi Gofal, cynllun hyfforddeion, codi ymwybyddiaeth, cyfryngau cymdeithasol, adran bwrpasol i'r sector gofal ar y wefan swyddi, hyrwyddo'r buddiannau o weithio i'r cyngor a hefyd yn annog pobl ifanc i gysidro gofal cymdeithasol fel gyrfa wobrwyol.

Atgoffwyd yr Aelodau o wasanaeth cwmni 'AskSARA' sydd yn darparu cefnogaeth i oedolion wedi i ddefnyddwyr gwblhau hunanasesiad o'r cymorth maent ei hangen. Nodwyd bod y gwasanaeth hwn yn un sydd yn cael ei ddefnyddio gan nifer o Awdurdodau Lleol yn genedlaethol. Ymhelaethwyd bod y system wedi bod ar gael yn y Gymraeg yn hanesyddol ond bod yr elfen hon o'r hunanasesiad wedi bod yn wallus iawn. Cadarnhawyd bod y gwasanaethau Oedolion wedi bod yn cydweithio gyda'r cwmni er mwyn datblygu elfen Gymraeg cywir i'r gwasanaeth hwn a sicrhau ei fod yn hygyrch i holl ddefnyddwyr wrth leihau'r tebygolrwydd o drafferthion yn codi. Nodwyd bod y cywaith hwn yn sicrhau bod mwy o bobl yn derbyn mynediad i gymorth drwy'r Gymraeg ac ymfalchïwyd bod yr adran wedi cymryd rôl arweiniol ar y gwaith hwn sy'n cael ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr AskSARA ym mhob cwr o Gymru.

Adroddwyd bod darpariaeth Dechrau'n Deg wedi cael ei ddatblygu gan nodi bod bellach 22 o ddarparwyr gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog o fewn y cynllun, ynghyd â datblygiad ap i ddefnyddwyr y cynllun. Pwysleisiwyd bod pob darparwr yn cynnig gofal yn y Gymraeg gyda'r opsiwn i gynnig gofal dwyieithog i'r Saesneg pan yn briodol. Ategwyd hyn gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gan gadarnhau fod y ddwy adran yn cynnig gwasanaethau'n Gymraeg yn rhagweithiol gan ddarparu gwasanaethau'n Saesneg yn dilyn ceisiadau.

Soniwyd bod yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cydweithio gyda CWLWM er mwyn rhoi cefnogaeth Cymraeg i feithrinfeydd, cylchoedd meithrin, gwarchodwyr plant a chlybiau ar ôl ysgol. Tynnwyd sylw o grantiau sydd ar gael i warchodwyr plant newydd sy'n ddi-gymraeg, er mwyn galluogi iddynt brynu cyfwerth â £100 o adnoddau Cymraeg ar gyfer eu darpariaeth. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bydd gwybodaeth bellach ar niferoedd yr unigolion sydd wedi cymryd mantais o'r grant hon ac am ba ddeunyddiau yn ogystal â niferoedd darparwyr gofal Dechrau'n Deg Cymraeg gyda'r aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Mynegwyd balchder bod ap AiDi bellach yn derbyn ystyriaeth i'w fabwysiadu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol. Atgoffwyd yr Aelodau bod yr ap Cymraeg hwn yn ddeunydd arloesol i ofalwyr ifanc di-dâl gan ei fod yn ddull effeithiol o rannu gwybodaeth ac yn galluogi iddynt gysylltu gyda'r ysgol pan bod angen. Pwysleisiwyd bod yr adborth i'r ap hwn wedi bod yn gadarnhaol iawn. Ymhelaethwyd ar ap ychwanegol y dymunir ei ddatblygu er mwyn cefnogi unigolion ag awtistiaeth. Dymunir i'r ap dwyieithog hwn gael ei ddatblygu erbyn diwedd Mawrth 2025 yn sgil derbyn arian grant yn ddiweddar.

Eglurwyd bod oddeutu 1,600 o staff wedi eu cyflogi ar draws y gwasanaethau cymdeithasol. Nodwyd bod 73.4% ohonynt wedi cwblhau asesiad iaith, gydag 85.5% o'r rhieni yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi. Cydnabuwyd bod yr adrannau yn sylweddoli bod patrwm i'r canlyniadau hyn wrth i gyfran mwy o weithwyr swyddfa gwblhau'r hunanasesiad o'i gymharu a staff rheng flaen. Cadarnhawyd ei fod yn flaenoriaeth i'r adrannau i annog rheolwyr i weithredu'r hunanasesiad gyda'r gweithwyr rheng flaen dros y misoedd nesaf er mwyn sicrhau casglu data mwy cyflawn o lefelau ieithyddol staff yr adrannau gan gynnig cefnogaeth sgiliau Cymraeg i unrhyw aelod o staff sy'n dymuno ei dderbyn, neu angen mynychu hyfforddiant yn sgil yr hunanasesiad.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu a thynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Adroddwyd bod yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ffeithiol sy'n ofynnol i'r Cyngor ei gyhoeddi yn unol â gofynion y Safonau Iaith dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Nodwyd bod y Safonau yn gosod rhai gofynion penodol ar gyfer adrodd blynyddol gan bwysleisio'r disgwyliad i gadarnhau:

- Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn
- Niferoedd staff sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn
- Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd gan y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn
- Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gan y Cyngor a nodwyd sgiliau Cymraeg fel sgil hanfodol i'r rôl.

Darparwyd crynodeb o'r adroddiad gan gadarnhau bod 98.9% o staff y Cyngor cyfan yn meddu ar ryw fath o sgiliau yn y Gymraeg. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod lefel dynodiad swydd isaf yn y Gymraeg yn nodi ei fod yn ofynnol i unigolion allu cyfarch ac ateb cwestiynau syml ar lafar, gan gadarnhau mai dyma beth mae'r ffigwr hwn yn ei adlewyrchu. Nodwyd hefyd bod 92% o staff y Cyngor yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd.

Aethpwyd ymlaen i gadarnhau bod 850 o hysbysebion swyddi wedi eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn gyda sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol i'r rôl.

Tynnwyd sylw bod 22 aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant mynediad, sef yr hyfforddiant iaith lefel cychwynnol. Nodwyd bod 6 unigolyn wedi mynd ymlaen i gwblhau hyfforddiant sylfaen yn ogystal â chwech unigolyn wedi cwblhau'r lefel canolradd. Pwysleisiwyd nad yw hyn yn arwydd nad yw unigolion yn parhau gyda'u hyfforddiant ond yn hytrach, ei fod yn adlewyrchu'r ffaith bod dynodiadau swydd yn amrywio ac nid oes rhaid i bawb sydd yn mynychu hyfforddiant mynediad barhau i'r lefelau uwch. Er hyn, nodwyd bod croeso iddynt wneud hynny os oes ganddynt ddiddordeb i wella eu sgiliau ieithyddol. Yn yr un modd, mynegwyd balchder bod niferoedd yr unigolion sydd yn dangos diddordeb mewn derbyn hyfforddiant gloywi iaith ar gynnydd.

Cyfeiriwyd ar wybodaeth ychwanegol a welir yn yr adroddiad am ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn i wella cydymffurfiaeth gyda'r Safonau iaith gan gynnwys:

- Camau penodol i hyrwyddo'r Polisi Iaith newydd a fabwysiadwyd yn 2022.
- Gwybodaeth am y Strategaeth Iaith newydd a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2023 sy'n nodi gweledigaeth y Cyngor o gynyddu defnydd y Gymraeg ar draws y sir.
- Gwybodaeth am waith fforwm mewnol Mwy Na Geiriau
- Prosiect Recriwtio Gweithlu Dwyieithog.

Eglurwyd nad oes cyfeiriad at Fenter Iaith Gwynedd yn yr adroddiad oherwydd eu bod yn gweithio gyda chymunedau Gwynedd yn hytrach na manylu ar ddefnydd a chydymffurfiaeth o'r Safonau Iaith.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**
- **Argymell i'r Aelod Cabinet gyhoeddi'r adroddiad erbyn terfyn amser, 30 Mehefin 2024.**

9. PROSIECT ENWAU LLEOEDD CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog Prosiect Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg a thynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd i'r prosiect cael ei sefydlu yn 2021 yn sgil pryderon cynyddol dros nifer o flynyddoedd bod enwau Cymraeg yn cael eu colli. Nodwyd mai un o brif ddatblygiadau'r prosiect yw'r Map Enwau Lleoedd Cyngor Gwynedd. Eglurwyd ei fod yn nodi enwau lleol ar lefydd o fewn y sir, megis caeau, lonydd, adeiladau, ardaloedd ac afonydd sydd yn cael eu defnyddio ar lafar ond ddim wedi cael eu cofnodi mewn mapiau swyddogol. Manylwyd bod y map yn parhau i gael ei boblogi gydag enwau newydd yn dilyn gweithdai mewn 15 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd. Anogwyd unigolion gyda gwybodaeth gywir am enwau lleol Cymraeg yn eu hardal i gysylltu gyda'r Swyddog er mwyn poblogi'r map hyd yn oed yn fanylach.

Tynnwyd sylw at nifer o brosiectau sydd ar y gweill er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd enwau lleoedd a'r cyfoeth hanesyddol, ieithyddol a diwylliannol maen nhw'n eu cynnwys. Ymhelaethwyd bod y Swyddog yn cyhoeddi erthyglau 'Yr Enw a'r Hanes' yn fewnol i staff y Cyngor er mwyn nodi hanes enw lle ac o fewn y Sir. Mynegwyd balchder mai dyma'r dudalen sydd yn cael y nifer mwyaf o ymwelwyr o holl dudalennau'r Fewnrwyd.

Adroddwyd bod y prosiect wedi bod yn weithgar iawn dros wythnos Eisteddfod Genedlaethol 2023 ym Moduan. Nodwyd bod y Swyddog yn aelod o banel trafod cenedlaethol yng nghwmni Jeremy Miles AS (Gweinidog y Gymraeg) a Dr Dylan Foster Evans (Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru) er mwyn parhau sgyrsiau ar bolisïau a threfniadau cyfreithiol yn y maes hwn. Cyfeiriwyd hefyd at sgwrs a gynhaliwyd yn y Babell Lên ar enwau lleol. Mynegwyd balchder bod y sgwrs hon a gynhaliwyd gan y Swyddog wedi cael ei ddarlledu ar S4C fel rhan o raglen goreuon yr ŵyl. Ychwanegwyd bod y Swyddog wedi bod yn trafod y mater ar BBC Radio Cymru wrth gael cytundeb am 4 mis i drafod enwau ac acenion lleol.

Cyfeiriwyd at gais a ddaeth gerbron y prosiect i geisio sicrhau bod enwau Cymraeg yn unig yn cael eu rhoi ar arwyddion stryd. Pwysleisiwyd i'r Swyddog ymchwilio mewn i'r broses o adnewyddu'r holl arwyddion gan gadarnhau y byddai hyn yn rhy gostus i'w weithredu. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod y prosiect wedi mabwysiadu prosiect amgen. Manylwyd mai un o brif amcanion y prosiect yma yw gosod arwyddion newydd ar gyfer lleoliadau ac ardaloedd, megis Twthill (Caernarfon), Lôn Rocar (Llandygai) a Lôn Groes (Pistyll), ble nad oes arwyddion presennol. Ystyriwyd bydd hyn yn gwneud y Gymraeg yn fwy gweledol yn y sir.

Soniwyd am brosiectau ychwanegol sy'n ffocysu ar osod arwyddion megis:
- Codi arwyddion yn nodi'r hen enwau Cymraeg ar rai o strydoedd Caernarfon (mewn cydweithrediad â Chymdeithas Ddinesig Caernarfon)
- Gosod arwyddion Cymraeg yn unig yn Nhrefor yn sgil nifer o arwyddion coll
- Gosod arwyddion wrth gyrraedd hen gantrefi/cymunedau ar ffyrdd 'A' yn y Sir yn dilyn diddordeb y cyhoedd o weld arwyddion 'Llŷn' ac 'Eifionydd' ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol.

Esboniwyd nad oedd gan Gynghorau Tref yr hawl, yn hanesyddol i osod arwyddion uniaith Gymraeg yn croesawu ymwelwyr yno. Mynegwyd balchder bod y swyddog, yn sgil trafodaethau gyda Chomisiynydd yr Iaith a Llywodraeth Cymru, wedi llwyddo i gael yr hawl i ganiatáu arwyddion Cymraeg yn unig ar gyfer y defnydd hwn.

Cyfeiriwyd at ap Enwau Gwynedd sydd wrthi yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a fydd ar gael i staff y Cyngor drwy'r fewnrwyd. Bydd hyn yn galluogi staff i gynorthwyo drwy gywiro unrhyw sillafiad neu gamgymeriad mewn enwau lleoedd. Eglurwyd mai'r nod yw cysoni'r enw mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio mewn gohebiaeth.

Eglurwyd bod Adrannau'r Cyngor yn cydweithio yn agos gyda'r Swyddog ar nifer o brosiectau. Rhannwyd enghraifft ei fod yn cynghori Rheolaeth Adeiladau ar faterion yn ymwneud ag enwi strydoedd ac eiddo yn ogystal ag ysgolion a stadau pan maent yn derbyn ceisiadau i newid enwau lleoedd o'r Gymraeg i'r Saesneg. Cyfeiriwyd at lyfryn 'Enwi eiddo – Ymarfer Da' a ddatblygwyd gan y Swyddog er mwyn annog pobl i gadw enwau Cymraeg eu heiddo. Ymhelaethwyd bod y Swyddog yn llythyru unigolion sy'n dymuno newid enw eu tŷ o enw Cymraeg i'r Saesneg mewn ymdrech i'w argyhoeddi o enw Cymraeg gallent ei ddefnyddio yn eu lle. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad oes gan y Cyngor grym i atal y newidiadau hyn os ydi'r perchnogion yn dymuno bwrw ymlaen. Ymhellach, nodwyd bod enwau Cymraeg yn cael eu defnyddio ar 94% o holl dai newydd a adeiladwyd ers 2020 ond cadarnhawyd bod ceisiadau o newid enwau tai o'r Gymraeg i'r Saesneg yn parhau i fod yn her.

Ymhelaethwyd bod y Swyddog yn cydweithio gyda'r Adrannau gyda materion ynglŷn ag enwau strydoedd, bod yn gamsillafiad, camddefnydd neu geisiadau eraill. Esboniwyd bod hyn yn waith diddorol gan fod 172 o systemau gwahanol yn cael ei ddefnyddio ar draws y Cyngor gan wahanol wasanaethau a bod angen cysoni'r data am enwau strydoedd er mwyn sicrhau bod y systemau yn defnyddio'r un cyfeiriadau i'r dyfodol wrth i feddalwedd y timoedd gael ei ddiweddaru. Nodwyd os oes angen cadarnhau enw ar stryd, gellir defnyddio 'Local Land and Property Gazetteer', gan ddefnyddio'r enw Cymraeg ymhellach mewn unrhyw ymgais i addasu'r defnydd swyddogol ar gyfer yr ardal.

Cadarnhawyd bod y Swyddog yn parhau i gydweithio gyda chyrff a mudiadau allanol ar nifer o agweddau gwahanol. Nodwyd ei fod yn aelod o Fforwm Enwau Lleoedd Cymru, ble mae cynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a rhai o awdurdodau lleol eraill yn cyfarfod er mwyn gwarchod enwau lleol. Nodwyd bod y Swyddog yn annog newid deddfwriaethol yn gyson o fewn y cyfarfodydd hyn. Ymhelaethwyd bod y Swyddog hefyd yn cydweithio gyda mapio Cymru gyda'r gobaith o ddatblygu mapiau digidol Cymraeg fel sylfaen i fapiau Cyngor Gwynedd ond cydnabuwyd bod nifer o heriau gyda thrwyddedau yn codi gyda hyn.

Adroddwyd bod y prosiect yn weithredol ers 2021 ac wedi ei ariannu hyd at Ebrill 2025. Ystyriwyd holi'r Fenter Iaith i weld os bydden nhw yn awyddus i fabwysiadu'r gwaith os nad yw'r ymgyrch i gael estyniad i'r prosiect yn llwyddiannus.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**
- **Argymell a chefnogi'r Aelod Cabinet i geisio canfod adnoddau i ymestyn cyfnod y prosiect er mwyn sicrhau datblygiad a pharhad i'r gwasanaeth.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 11:40yb.

CADEIRYDD

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	22 Hydref 2024
TEITL	Adroddiad Adran Amgylchedd
PWRPAS	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran Amgylchedd i'r Strategaeth Iaith
AWDUR	Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd

1. CEFNDIR

1.1. Bwriad yr adroddiad hwn ydi cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Amgylchedd i Strategaeth Iaith y Cyngor.

1.2 Mae'r Adran Amgylchedd yn cynnwys amrediad o wasanaethau ar draws meysydd Gwastraff ac Ailgylchu, Trafnidiaeth, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

1.3 Mae natur y gwasanaethau yma yn golygu fod staff yn dod i gyswllt rheolaidd gydag aelodau'r cyhoedd, cynghorwyr, staff eraill y Cyngor, awdurdodau a phartneriaid allanol eraill.

1.4 Fel Adran, mae pob ymdrech i sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu yn newis iaith y cwsmer, ac mae ymdrech gan swyddogion yr Adran i hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg yn rhinwedd eu gwaith.

1.5 Byddwn yn amlygu yn yr adroddiad y gwaith sy'n digwydd ar draws yr Adran i hybu a hyrwyddo'r iaith, unrhyw gynlluniau sydd ar droed yn y maes ac adnabod unrhyw heriau sy'n bodoli.

2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

1. Pa bolisïau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)
<u>Polisïau a chynlluniau strategol perthnasol / Prosiectau yng nghynllun y Cyngor</u> **Cynllun Datblygu Lleol** Mae gwaith Tîm Polisi Cynllunio yn ymwneud yn bennaf â pharatoi, monitro, adolygu a diwygio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (2011-26) gan gynnwys paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae ystyriaeth o'r iaith Gymraeg wedi bod yn ganolog i'r broses o baratoi'r Cynllun sy'n ymgorffori Polisi Cynllunio PS1 sy'n ymwneud yn benodol â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.

Mae Canllaw Cynllunio Atodol (Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy), hefyd yn cynnwys arweiniad manwl ar sut i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth ddelio gyda cheisiadau am ddatblygiadau newydd. Trwy'r gwaith yma, mae'r Cynllun yn cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd.

Mae'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd, sy'n un o Flaenoriaethau dan thema Gwynedd Werdd yng Nghynllun y Cyngor 2023 – 2028, wedi cychwyn gyda Chytundeb Cyflawni wedi ei gytuno gyda Llywodraeth Cymru. Wrth baratoi'r CDLl newydd, bydd y Tîm Polisi Cynllunio yn parhau i flaenoriaethu'r maes allweddol yma.

Cyfarwyddyd Erthygl 4
Mae'r gwaith ynghlwm â gosod Cyfarwyddyd Erthygl 4 hefyd wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor, fel rhan o brosiect 'Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr' dan thema Gwynedd Glyd. Nod y gwaith yma ydi ceisio gwyrdroi'r anghydraddoldeb cymdeithasol sy'n bodoli yn rhai o gymunedau Gwynedd, gan geisio sicrhau bod darpariaeth o dai (gan gynnwys tai fforddiadwy) ar gael i ddiwallu angen lleol.

Mae papur cyfiawnhau'r Erthygl 4 yn nodi: '*Mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, mae creu cymunedau cynaliadwy lle mae'r iaith Gymraeg wedi cael ei throchi'n llwyr o fewn cymunedau a darparu ac ail-greu'r cyd-destun cymdeithasol angenrheidiol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel rhan o ddefnydd arferol cymdeithas yn hanfodol er mwyn gwarchod ac annog twf yr iaith Gymraeg. Gydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'r gallu i gael gwell rheolaeth dros y stoc dai a thrwy hynny cheisio sicrhau fod yna ddarpariaeth ddigonol a fforddiadwy o dai i bobl leol yn fodd o gynorthwyo'r nod hyn.' Y g*obaith ydi y bydd gwell rheolaeth dros y stoc dai a thrwy hynny ceisio sicrhau fod yna ddarpariaeth ddigonol a fforddiadwy o dai i bobl leol yn fodd o gynorthwyo'r nod o gefnogi'r iaith i dyfu.

Prosiectau a chynlluniau eraill

Cynllunio, Polisi Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu
Wrth ymdrin ag unrhyw gais cynllunio, mae penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sy'n cynnwys polisi penodol o ran yr iaith Gymraeg a Chanllaw Cynllunio Atodol sy'n rhoi arweiniad manwl ar sut i weithredu'r polisi.

Trwy weithredu yn y modd yma, mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn cyfrannu tuag at hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn yr ardal gan sicrhau fod ceisiadau'n rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg.

Yn ystod cyfnod Ebrill 2023 i Mawrth 2024, derbyniwyd 1 Asesiad Ieithyddol a 17 Datganiadau Ieithyddol gyda cheisiadau a benderfynwyd a oedd yn cyfarch y trothwyon o fewn Polisi Cynllunio PS 1. Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 o'r Canllaw Cynllunio Atodol, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n is na throthwy'r rhai y mae angen Datganiad neu Asesiad ffurfiol arnynt.

Cafodd 3 cais cynllunio eu gwrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol amrywiol, a chafodd 13 cais cynllunio ganiatâd gydag amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol. Roedd rhain yn cynnwys y dylai unrhyw enw newydd ddeillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol i'r ardal lle'n bosib.

Mae hyn yn plethu gyda phrosiect Gwarchod Enwau Lleoedd y mae sawl Gwasanaeth o'r Adran Amgylchedd yn cyfrannu ato, gan gynnwys y Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi bod yn cydweithio gydag Uned Iaith y Cyngor ar waith Y Gymraeg mewn Busnes. Mae nodyn sy'n codi ymwybyddiaeth ac sydd hefyd yn cynnig cyngor yn mynd allan ar ymatebion cyngor ymlaen llaw ac mae nodyn gwybodaeth hefyd ar gael i swyddogion ddefnyddio ar ddyfarniadau cynllunio. Gosodwyd amod cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiadau tai newydd i sicrhau enw Cymraeg i'r tŷ a neu'r stad.

Yn ystod 2023/24, gosodwyd amod ar 35 o caniatadau cynllunio sydd yn sicrhau enw Cymraeg ar fusnesau newydd a dros 120 o dai newydd.

Tirwedd a Natur
Mae llawer o waith swyddogion y maes Tirwedd a Natur yn golygu gweithio'n agos gyda'r cyhoedd, ac mae hwyluso mynediad at ein hamgylchedd naturiol yn rhan annatod o'u gwaith.

Mae swyddogion bioamrywiaeth yn cynnal gwaith rheolaidd i annog diddordeb a hyrwyddo natur, gyda digwyddiadau darganfod natur ar y cyd â phartneriaid mewn gwarchodfeydd natur. Mae'r digwyddiadau yma yn gynnig cyfle i gynnal gweithgareddau ar gyfer teuluoedd gan gyflwyno termau ac enwau Cymraeg ar greaduriaid, planhigion ac ati.

Gwarchod y Cyhoedd
Mae 3 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd (Llygredd a Thrwyddedu; Bwyd a Diogelwch a Safonau Masnach) yn darparu deunyddiau ymgyrchoedd dwyieithog, ac mae ffurflenni cais i gyd yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae polisïau megis y Datganiad o Bolisi Trwyddedu 2024 yn cydnabod yr angen i fusnesau ystyried yr iaith Gymraeg a ffactorau sy'n berthnasol i ddiwylliant ardal wrth ymgeisio am drwydded alcohol, ac wrth redeg busnes.

Gwastraff ac Ailgylchu
Mae swyddogion Ailgylchu yn ymgymryd â gwaith cyson yn hyrwyddo gwasanaethau ac annog trigolion i wneud y mwyaf o ddulliau ailgylchu deunyddiau. Mae'r holl wybodaeth a deunydd cyhoeddusrwydd a gynhyrchir yn ddwyieithog, gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg.

Mae swyddogion yn mynychu digwyddiadau i hyrwyddo'r gwasanaethau ac yn cyfathrebu a chyflwyno yn Gymraeg oni bai fod dewis iaith y trigolion yn golygu fod angen trafod yn ddwyieithog neu'n Saesneg.

Mae deunydd hyrwyddo sy'n cael ei gynhyrchu yn sicrhau defnydd o Gymraeg clir, ac mae holl negeseuon mewnol i'r gweithlu yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg.

Diogelwch y Ffyrdd
Mae swyddogion Diogelwch y Ffyrdd yn ymweld ag ysgolion a lleoliadau ar draws y sir yn addysgu a hyrwyddo diogelwch wrth gerdded a beicio. Mae'r ymweliadau yma yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb ac yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg oni bai fod dewis iaith aelod o'r cyhoedd yn galw am gyfathrebu'n Saesneg. Mae'r tîm hefyd yn hyrwyddo eu gwaith trwy wefannau a chyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, fe wnaeth y tîm ddarparu hyfforddiant wyneb yn wyneb i gyfanswm o 5,890 o blant a phobl ifanc (538 trwy gynllun diogelwch Kerbcraft, 672 ar hyfforddiant beicio a 4,680 diogelwch y ffyrdd cyffredinol).

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

Fel y nodwyd uchod, bydd gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn mynd yn ei flaen, bydd ystyriaeth llawn yn cael ei roi i'r Gymraeg, ac mae hynny wedi ei amlinellu o fewn y Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun. Bydd dangos sut mae ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r iaith Gymraeg ar gamau penodol o'r broses yn cychwyn efo'r O Ddogfen Hoff Strategaeth.

Mae hyfforddiant a chyrsiau datblygu a gwella sgiliau iaith yn cael eu hamlygu mewn negeseuon rheolaidd i staff yr Adran, a bydd ymdrechion yn parhau i amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael yn y maes yma. Mae hynny'n cynnwys rhannu negeseuon gyda staff swyddfa, ac hefyd ymhlith staff rheng flaen, rhai ohonynt sydd heb fynediad i Fewnrwyd Staff y Cyngor yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhowch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Drwyddi draw, y tueddiad ydi fod unrhyw systemau allanol sy'n cael eu prynu ar gael mewn Saesneg yn unig. Ond wrth weithio yn agos gyda Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor, rydym yn llwyddo i sicrhau bod y system sydd yn wynebu'r cyhoedd yn ddwyieithog.

4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

Mae manylion am ddewis iaith aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn cael ei nodi er mwyn sicrhau fod unrhyw ohebiaeth yn cael ei ddarparu yn yr iaith mae'r derbynnydd yn ei ffafrio.

Rydym bob amser yn sicrhau fod unrhyw ohebiaeth cychwynnol yn cael ei ddarparu yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf, er mwyn ceisio annog a hybu defnydd yr iaith lle bynnag mae hynny'n bosib.

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Dengys y ffigyrau diweddaraf fod 336 o staff yr Adran Amgylchedd wedi cwblhau hunanasesiad neu lle mae asesiad wedi ei gwblhau gan reolwr/ arweinydd tîm ar gyfer staff sydd heb fynediad hwylus at fewnrwyd staff, sef 81.4% o staff yr Adran.

Mae'n braf gallu adrodd fod cynnydd wedi bod yn y nifer o staff yr Adran sydd ag asesiad iaith o'i gymharu gyda'r sefyllfa flwyddyn yn ôl. Yn hanesyddol, roedd nifer o staff y Gwasanaethau Gwastraff heb asesiad dynodiad iaith. Ond diolch gwelwyd ymdrech gadarnhaol i adnabod sgiliau iaith y staff dros y flwyddyn diwethaf, a bydd hynny'n parhau wrth i ni i geisio sicrhau fod asesiad wedi ei gwblhau i holl staff dros y misoedd nesaf.

Yn ôl y ffigyrau diweddaraf, mae 83.6% o staff sydd wedi asesu yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi. Mae'r Adran hefyd wedi bod mewn trafodaethau gyda Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith y Cyngor i ystyried addasrwydd lefelau iaith y gweithlu gwastraff er mwyn sicrhau fod y gofynion yn cyd-fynd gyda cyfrifoldebau eu swyddi dydd i ddydd.

Er hynny, dylid nodi nad ydi'r ffaith fod aelod o staff yn cwrdd y gofynion iaith yn golygu nad ydynt yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg, ac mae'r Adran yn hyrwyddo unrhyw gyfleoedd i staff fynychu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau neu loywi iaith.

Braf adrodd fod aelod o staff o'r Tîm Ailgylchu sydd wedi pasio arholiad y Dystysgrif Sgiliau iaith gyda Phrifysgol Bangor yn ystod y flwyddyn diwethaf. Yn ogystal, mae swyddogion o'r maes bioamrywiaeth a gwarchod y cyhoedd wedi mynychu cyrsiau gloywi iaith, ac aelod o'r tîm parcio yn dilyn cwrs dysgu Cymraeg ar hyn o bryd.

6.Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Fel y nodwyd eisoes, mae llawer o'r systemau cyfrifiadurol allanol a ddefnyddir gan staff yr Adran yn dueddol o fod yn uniaith Saesneg. Yn anffodus, mae'r costau datblygu fyddai'n sicrhau bod elfennau'r swyddfa gefn hefyd yn ddwyieithog y tu hwnt i'r gyllideb sydd ar gael, ac mae hynny'n golygu bod y cyfle i staff ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio ar systemau yn cael ei rwystro. Er hyn, mae cydweithio cadarnhaol gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth

yn sicrhau fod systemau mewnol ar gael yn y Gymraeg, ac mae unrhyw agwedd i'r system sy'n wynebu'r cyhoedd yn gwbl; ddwyieithog.

Tendrau Cyffredin: Ym mhob contract/cytundeb a roddir drwy borth caffael GwerthwchiGymru/e-Dendr Cymru, rydym yn parhau i ymdrechu i sicrhau bod safon y gwasanaeth Gymraeg yn cael ei sicrhau a'i chynnal. Caiff copi o Bolisi Iaith y Cyngor ei gynnwys yn y dogfennau tendro, a gofynnir i bob ymgeisydd ei ddarllen er mwyn sicrhau eu bod yn deall beth yw'r gofynion ohonynt o ran y Gymraeg ond hefyd eu bod yn deall pwysigrwydd y Gymraeg i Gyngor Gwynedd. Caiff gofynion ieithyddol (sy'n adlewyrchu Polisi Iaith y Cyngor) pob contract eu pennu yn ôl anghenion y contract hwnnw.

Gwasanaeth tendro 'Find a Tender Service' (FTS): Gan fod sefydliadau'r sector gyhoeddus yn cael eu hariannu gan arian trethdalwyr, mae'n hollbwysig fod y drefn caffael yn deg, yn dryloyw a chynnig gwerth am arian i'r trethdalwr. Pan fydd corff sector cyhoeddus eisiau prynu unrhyw nwyddau, gwaith neu wasanaethau dros werth penodol ("trothwy") rhaid iddo hysbysebu trwy FTS. Nid yw FTS yn derbyn hysbysiadau yn Gymraeg yn unig, gan mai Saesneg yw'r iaith orfodol ar gyfer y cyhoeddiad hwn, ond rydym yn trefnu hysbysiadau dwyieithog.

Prosiectau/contractau: Mae'r diwydiant peirianneg â thueddiad i fod yn Saesneg eu natur. Er mwyn annog y defnydd o Gymraeg yn ystod y broses pwrcasu, rydym yn sicrhau fod dogfennau 'gwahoddiadau i dendr' neu 'cyfarwyddiadau i dendro' yn cael eu hysbysu'n ddwyieithog.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith yn 2023:
Cynllun Hybu'r Gymraeg Adran Amgylchedd.pdf (llyw.cymru)

Cyfarfod	Pwyllgor Iaith
Dyddiad	22 Hydref 2024
Teitl	Cynllun Hybu'r Gymraeg – Adran Gyllid
Pwrpas	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran Gyllid i hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
Awdur	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

1. Pa bolisïau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)

Prosiectau yng nghynllun y Cyngor

Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023/2028
Mae'r cynllun yn cwmpasu 29 prosiect i gefnogi Cyngor Gwynedd i fod yn GYNGOR DIGIDOL, ble mae technoleg yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth er mwyn darparu gwasanaethau'n fwy economaidd ac effeithiol, a ble mae'r cwsmer yn fwyfwy canolog ym mhopeth rydym yn ei wneud.

Mae egwyddorion cydraddoldeb a llesiant yn wythiennau cyson oddi fewn y Cynllun, gan gynnwys y Gymraeg ac elfen cynaliadwyedd y Pum Ffordd o Weithio, gyda'r ymrwymiad i gynnwys y Gymraeg mewn trefn Asesiad Addasrwydd Digidol ar gyfer mewnosod unrhyw ddatblygiad digidol oddi fewn y Cyngor. Mi fydd yr asesiad addasrwydd yn dwyn ar safonau digidol sydd wedi eu cyhoeddi gan Comisiynydd y Gymraeg, gan eu gweithredu ar gyfer unrhyw ddatblygiad mewnol neu gaffael datrysiad gan gwmnïau trydydd parti.

Prosiectau a chynlluniau eraill

Defnydd dydd-i-ddydd
Rydym yn ymfalchïo fod yr holl adran yn darparu ei wasanaethau trwy'r Gymraeg a credwn fod y gallu i weithio o ddydd-y-ddydd trwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn gymorth mawr wrth ddenu a phenodi staff newydd. Mae gennym dystiolaeth fod y diwylliant yma wedi meithrin hyder nifer o'n staff newydd gan gryfhau eu ddefnydd o'r iaith.

Archwilio Cymru
Mae swyddogion yr Adran yn cynnal cyfarfodydd yn uniaith Gymraeg gyda swyddogion Archwilio Cymru. Credwn fod hyn wedi rhoi ysgogiad i Archwilio Cymru gryfhau'r eu trefniadau o'r Gymraeg a credwn fod hyn wedi bod yn gyfle i staff Archwilio Cymru ddatblygu eu Cymraeg hefyd a gwneud mwy o defnydd ohono.

Hyfforddiant
Mae Adran Gyllid Cyngor Gwynedd yn un o'r cyflogwyr prin hynny sy'n cynnig hyfforddiant proffesiynol mewn materion ariannol a thechnoleg gwybodaeth trwy'r Gymraeg. Rydym yn cynnig lleoliadau Cymraeg i Brentisiaid a Hyfforddeion yn y Gwasanaeth Cyfrifeg ac yn y Gwasanaethau Digidol.

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?
Credwn fod y gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd yn y meysydd ariannol (e.e. trethi, budd-dal) yn gwbl ddwyieithog, gan gynnwys y llenyddiaeth a ffurflenni rydym yn eu darparu. Er hynny, rydym yn ymwybodol fod pethau'n newid yn gyflym iawn yn y maes budd-daliadau sy'n ymwneud â chyd-weithio gyda cyrff o'r tu allan i'r Cyngor a byddwn yn parhau yn ofalus i sicrhau fod y safonau yn cael eu cynnal. O safbwynt materion digidol, gwelir yn rhan 1 uchod fod hwn yn faes sy'n datblygu'n barhaus a wrth sefydlu systemau newydd fel bo'r angen byddwn yn gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth â'n disgwyliadau.
3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhowch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
Mae'r Cynllun Digidol yn nodi'r angen i gynnwys y Gymraeg mewn unrhyw ddarpariaeth digidol, ond tydi'r farchnad ddigidol ddim wastad yn gefnogol i ddarparu systemau dwyieithog. Cafwyd esiampl o hyn gyda darpariaeth hunanwasanaeth Treth y Cyngor ar gyfer y cyhoedd, ble nad oedd y ddarpariaeth yn cyfarch popeth yn ddwyieithog. Er y rhwystr hyn, aethpwyd ati i ddarganfod datrysiad a chomisiynu gwaith drwy gwmni 3ydd parti arall sy'n rhyng-gipio manylion y system yn y Saesneg, ei gyfieithu o gyfieithiadau sydd wedi eu paratoi yn barod a'i gyflwyno i'r defnyddiwr yn y Gymraeg. Gall y math hyn o dechnoleg ei ddefnyddio yn eang, a ni ddylai diffyg datrysiad parod gan gwmni ein atal o gyflwyno darpariaeth dwyieithog. Mae eithriadau i hyn, er enghraifft, tydi cynnyrch llawn hir-ddisgwyliedig Microsoft ar gyfer deallusrwydd artiffisial (Copilot) ddim yn cynnwys y Gymraeg fel iaith sy'n cael ei gefnogi, a drwy hynny, mae cyfleon i ddargyfeirio tasgau megis paratoi cofnodion drwy'r cyfrwng hwn yn cael eu colli ar gyfer cyfarfodydd â gynhelir yn y Gymraeg.

4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

Mae mwyafrif y gwasanaethau a gynigir gan yr Adran yn ymwneud â chefnogi adrannau eraill y Cyngor a'u cynorthwyo hwy i ddarparu gwasanaethau i weddill y Cyngor.

Fodd bynnag, mae'r adran yn gallu dylanwadu ar y gwasanaethau rydym yn eu cynnig a chefnogi'r Gymraeg trwy'r Cyngor.

Gwasanaethau Digidol
Mae pob gliniadur a ddarperir yn gorfforaethol yn cael eu darparu gyda'r llwyfan weithredu wedi ei sefydlu yn y Gymraeg. Cesglir ystadegau pellach er mwyn gwirio y nifer sy'n dewis parhau gyda'r gosodiad yn y Gymraeg, neu yn mynd rhagddo a'i newid i'r Saesneg.

Mae'r gliniaduron a ddarperir gan y Gwasanaeth Dysgu Digidol yn cael eu darparu gyda'r llwyfan gweithredu yn y Gymraeg, ond nid oes gosodiad wedi ei ddarparu ar gyfer mesur os yw'r gosodiad yn cael ei newid. Mae gwaith datblygol yn mynd rhagddo gyda tîm HWB yn Llywodraeth Cymru i alluogi modd o adrodd i'r dyfodol.

Gweinyddu Pensiynau
Rydym wedi cyflwyno system hunanwasanaeth newydd i'r gronfa bensiwn ym mis Ebrill eleni. Cronfa Bensiwn Gwynedd oedd y gronfa gyntaf yng Nghymru i uwchraddio i'r safle newydd ac roedd rhaid i ni helpu'r cwmni i ddatblygu'r fersiwn Gymraeg o'r safle. Roedd hwn yn waith eithaf sylweddol, ond bydd y safle yma rŵan yn cael ei ddefnyddio ar draws Cymru wrth i'r cronfeydd eraill uwchraddio.

Mae Cronfa Bensiwn Powys yn defnyddio'r safle we rŵan hefyd. Rydym yn parhau i ddatblygu'r system a bydd elfennau ychwanegol yn cael eu cyflwyno i'r safle yn y misoedd nesaf, a bydd gweddill cronfeydd Cymru'n symud drosodd dros y blynyddoedd nesaf.

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Darparwyd yr adroddiad Dynodiadau Iaith diweddaraf ym Medi 2024, gan ddefnyddio data fel ag yr oedd ar 2[il] Fedi. Mae'r adroddiad yn nodi fod 218 o staff yr Adran Gyllid wedi cwblhau hunanasesiad ieithyddol, sy'n 99.5% o'r gweithlu – dyma'r ganran uchaf o holl adrannau'r Cyngor. Dim ond 1 aelod o staff doedd ddim wedi cyflwyno dadansoddiad ar y diwrnod hwnnw a rydym wedi dilyn i fyny ar hynny yn syth.

O'r 218 sydd wedi cyflwyno hunanasesiad, roedd 99.1%, sef 216 yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Hynny yw, dim ond 2 aelod o staff wedi dod i gasgliad nad ydynt yn cwrdd â dynodiad eu swydd ond rydym yn cynnal cefnogaeth i'r swyddogion hyn er mwyn eu cefnogi i wella eu sgiliau ieithyddol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae dau aelod o staff wedi dilyn hyfforddiant iaith. Bu Prentis Gradd ar gwrs Gloywi Ysgrifennu gyda Cymraeg Gwaith yn Nant Gwrtheyrn er mwyn datblygu ei sgiliau iaith ymhellach.

Mae Rhaglennwr/Dadansoddwr yn y Gwasanaeth Digidol hefyd wedi bod yn dilyn gwersi Cymraeg wythnosol ar lefel Sylfaen gyda Dysgu Cymraeg. Mae'n bwriadu dal ati efo'r gwersi.

6.Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Gwasanaeth Cyflogau
Cafwyd achos yn yr Uned Cyflogau ym mis Hydref 2023 lle derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd gan ei bod wedi derbyn Ffurflen Cyflogwr SSP1 mewn uniaith Saesneg a pan holwyd am un Cymraeg, nodwyd nad oedd ffurflen Cymraeg ar gael; roedd hynny yn wybodaeth anghywir. Nid ffurflen Cyngor Gwynedd ydi SSP1, ond un Cyllid a Thollau EF. Serch hynny, roedd fersiwn Gymraeg o'r ffurflen yma ar gael, a dylai fod wedi ei rannu.

Yn dilyn hyn, adolygwyd y prosesau yn yr Uned Cyflogau i sicrhau bod yr holl swyddogion yn gwybod bod y ffurflen hon ar gael yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Bellach, mae ffurflen Cymraeg a Saesneg yn cael ei hanfon mewn achosion o'r math yma, yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor. Ymhellach, yn dilyn y digwyddiad hwn bu i'r gwasanaeth gynnal adolygiad o'r holl ffurflenni gan gyrff allanol roedd yn ei anfon allan i gyflogeion a chyn-gyflogeion, er mwyn sicrhau fod fersiynau Cymraeg yn ogystal â fersiynau Saesneg yn cael eu dosbarthu.

Gwasanaeth Pensiynau
Mae'r Gwasanaeth wedi cael adborth da iawn ar y cyfan am y safle hunan-wasanaeth newydd (gweler Rhan 4 uchod). Dyma un sylwad o'r adborth rydym wedi ei dderbyn o rhan y Gymraeg:

'Hawdd iawn mewngofnodi ac yn y Gymraeg - ardderchog.'

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith yn 2023:
Cynllun Hybur Gymraeg Adran Gyllid.pdf (llyw.cymru)

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	22 Hydref, 2024
TEITL	Adroddiad Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC
PWRPAS	Cyflwyno gwybodaeth am weithrediad y Polisi Iaith a gweithgareddau hybu'r Gymraeg
AWDUR	Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac YGC

1. CEFNDIR

1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais y Pwyllgor Iaith am wybodaeth ynghylch sut mae'r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC yn gweithredu'r Polisi Iaith a pha weithgareddau y mae'n eu gwneud i hybu'r Gymraeg.

1.2 Mae'r Adran yn cynnwys ystod o wasanaethau gan gynnwys cynnal ffyrdd, goleuo stryd, cynnal asedau bwrdeistrefol, glanhau strydoedd, gwasanaeth profedigaeth yn ogystal ag ymgynghoriaeth peirianneg amlddisgyblaethol. Mae hefyd yn gyfrifol am reoli holl fflyd y Cyngor ac am weithredu'r gwasanaeth caffael rheoli categori amgylcheddol.

1.3 Oherwydd natur gwaith yr Adran, mae'n anorfod y bydd y rhan fwyaf o'n staff yn dod i gysylltiad ag aelodau'r cyhoedd. O ganlyniad, disgwylir i'r mwyafrif ohonynt o leiaf allu siarad Cymraeg i lefel derbyniol er mwyn gallu delio'n uniongyrchol ag ymholiadau a, thrwy hynny, ddarparu profiad gwell i'n cwsmeriaid.

1.4 Fodd bynnag, mae gan yr Adran nifer o weithwyr rheng flaen ac yn hanesyddol, mae wedi bod yn anodd pennu faint yn union sy'n bodloni dynodiadau iaith eu swydd. Er hynny, mae'r Adran wedi goresgyn hyn i raddau helaeth yn ystod y 12 mis diwethaf fel yr eglurir yn yr adroddiad.

2. YMATEB I YMHOLIADAU'R PWYLLGOR

1. Pa bolisïau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg) e.e *Enw* ***Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg*** *(Blynyddoedd cynnar a dysgu):* *Mae'r maes hwn yn cael sylw penodol yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ac mae mesurau penodol wedi eu llunio i fonitro cynnydd.* *Crynodeb byr* *Sicrheir bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.*

Polisïau a chynlluniau strategol perthnasol

Strategaeth Iaith Gwynedd 2023 – 2033

Prosiectau yng nghynllun y Cyngor

Gwynedd Yfory

Sicrhau fod caeau chwarae a chyfleusterau addas ar gael i blant a phobl ifanc yn eu hamser hamdden (arwyddion cywir a chlir).

Gwynedd Werdd

Gweithredu ar risgiau llifogydd a cymunedau glan a thaclus – fel rhan o'r gwaith yma byddwn yn hybu defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth drafod materion technegol y maes llifogydd.

Prosiectau a chynlluniau eraill

Cyfathrebu mewnol gyda Staff yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC
Rydym yn cynhyrchu Newyddlen Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, yn ogystal â Bwletin YGC, yn rheolaidd ac mae'r rhain yn cael eu cylchredeg i holl staff yr Adran yn y Gymraeg. Gwerthfawrogir y rhain, nid yn unig am eu cynnwys llawn gwybodaeth ond hefyd am eu hansawdd a'u defnydd o Gymraeg clir.

Digwyddiadau Gyrfaoedd a Chodi Ymwybyddiaeth am Swyddi
Mae gan y Gwasanaeth YGC brofiad o osod stondinau mewn digwyddiadau lleol a chenedlaethol mawr er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau ym meysydd peirianneg sifil ac adeiladwaith, ac i hysbysebu cyfleoedd gyrfa. Doedd eleni ddim gwahanol gyda stondinau'n cael eu codi yn Sioe Sir Fôn a ffeiriau swyddi mewn partneriaeth gyda chwmni Darogan Talent.

Bu'r Adran yn weithgar iawn yn ystod y Sioe gan gynnwys cynnal gweithgareddau a chystadlaethau oedd yn ymwneud ac atal llifogydd. Roedd y rhain yn gyfleoedd delfrydol i wneud argraff ar bobl ifanc y gallent gael gyrfa foddhaus yn y maes hwn drwy gyfrwng y Gymraeg a, thrwy hyn, cadw talent yn lleol.

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?
(e.e. addysg, adnoddau, teuluoedd, hyrwyddo defnydd o wasanaeth drwy'r Gymraeg)

Mentor Cymhwyster ac Aelodaeth o Gorff Proffesiynol Sefydliad y Peirianwyr Sifil
Yn ogystal â'r gwaith digwyddiadau gyrfaoedd, mae gan YGC gysylltiad agos â Sefydliad y Peirianwyr Sifil (Institution of Civil Engineers - ICE), sef y prif sefydliad peirianneg broffesiynol sy'n dyfarnu cymwysterau proffesiynol i beirianwyr sifil. Mae un o beirianwyr y gwasanaeth wedi'i benodi'n fentor dros y Cyngor ac mae'r gefnogaeth mae'n ei gynnig yn y Gymraeg wedi'i ymestyn i gynnwys peirianwyr yng Nghynghorau Ynys Môn a Chonwy.

Cynrychiolaeth ar fwrdd Technegwyr Myfyrwyr Graddedigion SyPS Gogledd Cymru
Mae tri pheiriannydd o wasanaeth YGC yn aelodau ar fwrdd Technegwyr Myfyrwyr Graddedigion Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE) Gogledd Cymru, gan gynnwys Peiriannydd Cynorthwyol sydd yn Gadeirydd i'r grŵp. Mae hi yn adrodd ar faterion technegol i grwpiau eraill ar draws y Deyrnas Unedig pan yn cyfarfod yn swyddfa'r ICE yn Llundain sawl gwaith y flwyddyn.

Gwasanaeth cyfathrebu i randdeiliaid ar ran UK Highways
Mae'r Gwasanaeth YGC yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyfathrebu i randdeiliaid ar ran UK Highways ar gyfer y rhan o'r A55 rhwng Llandygai a Chaergybi. Mae hyn yn golygu paratoi negeseuon pwysig dwyieithog am waith cynnal ac ati.
Fel rhan o'r gwasanaeth, maent hefyd yn trefnu a mynychu cyfarfodydd 'galw heibio' yn lleol i rannu gwybodaeth yn ôl yr angen. Comisiynodd UK Highways YGC yn benodol oherwydd eu harbenigedd yn y maes a gallu'r staff i gyfathrebu yn Gymraeg.

Trefnu digwyddiadau 'galw heibio' cysylltiedig â phrosiectau YGC
Mae YGC hefyd yn trefnu nifer o ddigwyddiadau 'galw heibio' yng Ngwynedd a thu hwnt er mwyn hysbysu trigolion am gynlluniau arfaethedig a derbyn eu barn amdanynt. Cynhelir y rhain yn ddwyieithog bob amser.

Cydweithio gyda Busnes Lleol - Isgontractwyr
Mae ein Tîm Categori Amgylchedd wedi mynychu tri digwyddiad busnes ar draws y Sir dros y misoedd diwethaf oedd yn cael eu trefnu gan Dîm Cymorth Busnes y Cyngor. Y nod yw, codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd ar gyfer Isgontractwyr lleol i gofrestru ar restr Isgontractwyr y Cyngor, neu ddarparu gwasanaeth drwy fframweithiau'r Cyngor. Mae'r tîm yn awyddus iawn i ymgysylltu a rhoi cyfle i gwmnïau gofrestru. Maent wedi datblygu canllaw i roi cymorth i gwmnïau gofrestru ar system GwerthuiGymru ac eDendroCymru. Mae'r tîm hefyd wedi creu eitem yn y Bwletin Cefnogi Busnes y Cyngor sydd yn cael ei rannu yn wythnosol, ac mae bwriad cynnal digwyddiad yn safle Adra, sef Tŷ Gwyrddfai ym Mhenygroes mis Rhagfyr mewn cydweithrediad gydag adrannau eraill o'r Cyngor, Adra Tai Cyf a chwmnïau eraill.

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhowch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

System Rheoli Asedau Gwasanaeth Fflyd Cyngor Gwynedd
Yn hytrach na phrynu systemau masnachol sy'n gweithredu yn uniaith Saesneg yn unig, mae'r Gwasanaeth Fflyd wedi datblygu systemau eu hunain ar gyfer rheoli asedau fflyd y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r systemau yn ymddangos yn y Gymraeg yn gyntaf ac mae'n rhaid i ddefnyddwyr ddewis opsiwn i weithredu yn y Saesneg. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw systemau fflyd eraill sy'n cynnig y gwasanaethau yma yn y Gymraeg.

Gwefannau Prosiectau

Mae tîm Datblygu Busnes Gwasanaeth YGC yn darparu gwefannau penodol ar gyfer codi ymwybyddiaeth o brosiectau yn ystod cyfnod ymgynghori prosiectau a chyfnod adeiladu. Mae'r ddarpariaeth yma yn galluogi'r gwasanaeth i sicrhau bod y gwefannau yn cael eu creu a'u cynnal gyda chynnwys dwyieithog. Mae'r gwefannau hyn yn defnyddio templed gan gwmni WordPress sydd gyda 'plug-in' ar gyfer botwm togl sydd yn galluogi'r defnyddiwr i ddewis yr iaith.

4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

e.e.

Blynyddoedd cynnar

1. *Data cyrhaeddiad y CSGA o ran nifer y lleoliadau gofal plant, a nifer plant sydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.*
2. *Nifer cylchoedd Ti a Fi, grwpiau Rhiant a Phlentyn sydd yn cael eu cefnogi/cynnal.*
3. *Nifer y gweithgareddau sydd yn cael eu targedu yn benodol at deuluoedd ifanc/rhieni a babanod gan wasanaethau'r Cyngor.*
4. *Nifer y gweithgareddau teuluol sydd yn cael eu trefnu gan y fenter iaith.*
5. *Nifer ymgyrchoedd rhannu adnoddau a gwybodaeth.*

Dysgu

1. Ystadegau monitro CSGA
2. Nifer staff y Cyngor sydd yn derbyn hyfforddiant i wella sgiliau
3. Nifer prentisiaethau sydd yn cael eu cynnig gan y Cyngor
4. Nifer cyfleoedd hyfforddi/achrediadau sydd yn cael eu cynnig gan y gwasanaeth ieuenctid.

Gwaith a gwasanaeth

1. Nifer busnesau sydd yn derbyn cymorth ariannol drwy gynllun Arfor
2. Nifer staff sydd yn derbyn cefnogaeth i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu sgiliau
3. Nifer staff sydd yn cymryd rhan mewn cynlluniau cyfeillio/pencampwyr

Y gymuned

1. Nifer gweithgareddau wedi eu cynnal gan wasanaethau'r Cyngor a'r fenter iaith ar gyfer gwahanol grwpiau
2. Nifer mentrau cymunedol sydd yn cael eu cefnogi drwy gynlluniau Adfywio ac Economi

Ymchwil a thechnoleg

1. Nifer prosiectau ymchwil sydd wedi eu cynnal gan y Cyngor, neu eu comisiynu gan y Cyngor

Unrhyw ddata arall perthnasol

Dysgu / Gwaith a gwasanaeth

Nifer staff yr Adran sydd yn derbyn hyfforddiant i wella sgiliau
Mae'r Adran yn derbyn manylion am hyfforddiant gwella sgiliau Iaith yn chwarterol gan Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg y Cyngor. Bydd y neges yma yn cael ei rannu gyda staff yr Adran dros e-bost. Mae'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg yn cadw cofnod o'r nifer o staff sydd yn derbyn hyfforddiant a darparu diweddariad i'r Pennaeth Adran yn chwarterol.

Mae nifer o staff wedi mynychu hyfforddiant ar sawl lefel iaith felly mae'r diddordeb mewn gwella sgiliau iaith yn dda iawn ar draws yr Adran.

- Un aelod o staff wedi cwblhau Cwrs lefel Canolradd 1 gyda Dysgu Cymraeg, ac wedi cofrestru ar gyfer lefel 2.
- Un aelod o staff wedi cofrestru ar gyfer Cwrs lefel Canolradd 1 gyda Dysgu Cymraeg.
- Un aelod o staff yn dilyn cwrs 'Defnyddio' Gloywi Ysgrifennu gyda Nant Gwrtheyrn trwy gynllun Cymraeg Gwaith.
- Dau aelod o staff yn dilyn cwrs y Dystysgrif Sgiliau Iaith gyda Phrifysgol Bangor, gyda 1 wedi pasio ei arholiad.
- Un aelod o staff wedi dangos diddordeb mewn cwrs Magu Hyder ac yn disgwyl i Dysgu Cymraeg anfon dyddiadau ymlaen.

Prentisiaethau
Mae'r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC yn cefnogi cynllun Prentisiaethau'r Cyngor ac yn falch o gadarnhau bod gennym 5 Prentis ar draws y gwasanaeth. Mae'r Prentisiaethau hyn yn cynnwys: -

- Prentis Gradd Peirianneg Meddalwedd – Uned Busnes PP/YGC
- Prentis Peirianneg Sifil – Gwasanaeth Priffyrdd
- Prentis Peirianneg Sifil – Gwasanaeth YGC
- Prentis Trydanwr Goleuo - Gwasanaeth Goleuo
- Prentis Technegydd Fflyd (Mecanic) - Gwasanaeth Fflyd

Ceisiadau am wasanaethau drwy wefan Cyngor Gwynedd
Mae ceisiadau am wasanaeth yr Adran dros system hunan wasanaeth gwefan Cyngor Gwynedd, megis adrodd twll mewn ffordd neu olau stryd diffygiol yn cael eu derbyn a phrosesu drwy system FFOS y Cyngor. Mae'r system yma yn cael ei reoli a gweinyddu gan Adran TG Cyngor Gwynedd.

Ceisiadau am wasanaeth dros y ffôn
Mae mwyafrif o geisiadau am wasanaeth gan yr Adran sydd yn cael eu derbyn dros y ffôn drwy Galw Gwynedd neu un uniongyrchol yn cael eu cofrestru a phrosesu drwy system FFOS y Cyngor.

Y gymuned

Safle Golff Giamocs Porthmadog
Mae'r tîm Cynnal Tiroedd sydd yn gyfrifol am safle Golff Giamocs Porthmadog wedi bod yn cydweithio gyda tîm Datblygu Busnes PP/YGC i wella edrychiad y safle a chodi proffil y cyfleusterau. Fel rhan o'r gwaith, mae arwyddion a baneri dwyieithog lliwgar newydd wedi cael eu lleoli o amgylch y safle, ac mae'r cwrs wedi ei ymestyn yn 18 twll erbyn hyn. Mae'r tîm wedi creu gwefan benodol a thaflen wybodaeth sydd yn rhoi manylion am y safle. Mae'r adborth sydd wedi ei dderbyn hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn am welliannau ac rydym yn falch o ddweud bod y Gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn defnydd o'r safle.

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Mae 96.6% o staff yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC yn cyrraedd dynodiadau iaith y swydd.

Mae pob gwasanaeth ar draws yr Adran yn gweithio gyda'r staff i annog defnydd o'r iaith a magu hyder.

6.Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Rhwystrau
Gan fod yr Adran yn gweithredu yn y diwydiant peirianyddol sy'n cael ei ystyried yn un Saesnig, mae'n gallu bod yn anodd cyflawni gwasanaeth llawn ar lafar yn y Gymraeg. Mae hyn oherwydd yr angen i weithio gydag asiantaethau fel Llywodraeth Cymru, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac ati.

Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'r ffurflenni safonol ar gyfer contractau peirianneg wedi'u hysgrifennu yn Saesneg. Mae'r un peth yn berthnasol i'r mwyafrif o'r manylebau peirianneg a chodau ymarfer cenedlaethol a ddefnyddiwn. Yn ogystal, oherwydd Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (sydd yn disodli'r Official Journal of the European Union - OJEU), cawn ond hysbysebu contractau gwerth uchel yn y Saesneg (cynlluniau neu wasanaethu mawr dros drothwy pris penodol).

Mae'r Adran yn ymfalchïo ei fod yn gallu cynnig gwasanaeth sydd bron yn gwbl Gymraeg i'n trigolion. Fodd bynnag, gall fod yn anodd ar adegau recriwtio staff sy'n bodloni dynodiad iaith y swydd yn llawn i rai rolau. Mae hyn yn wir hyd yn oed i swyddi gyda lefelau ieithyddol elfennol.

Canmoliaeth a Chwynion

Roedd yn amlwg o'r adborth a gawsom yn Sioe Sir Fôn ac yn y digwyddiadau gyrfaoedd eleni bod gwerthfawrogiad mawr, nid yn unig i'r gwasanaeth a gyflwynir i'n trigolion, ond hefyd i ddefnydd a'r hyrwyddiad o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn. Roedd hyn yn galonogol ac yn cadarnhau ein bod ar y llwybr cywir yn ein hagwedd at yr iaith.

O ran cwynion, nid yw'r Adran wedi derbyn llawer o feirniadaeth am ein defnydd o'r iaith. Er hynny, rydym wedi cael ein beirniadu ar rai achlysuron drwy weld contractwyr allanol sy'n gweithio ar ran y Gwasanaeth Cynnal Ffyrdd ddefnyddio arwyddion rhybudd uniaith Saesneg ar safleoedd. Fodd bynnag, prin yw'r rhain ac maent yn cael eu datrys yn syth ar ôl i ni gael gwybod amdanynt.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith yn 2023:
Priffyrdd Peirianneg ac YGC Cynllun Hybu'r Gymraeg.pdf (llyw.cymru)

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	22ain Hydref 2024
TEITL	Sesiynau Ymgysylltu i drafod Polisi Iaith Addysg Gwynedd
PWRPAS	Ethol 5 cynrychiolydd o'r Pwyllgor Iaith i fynychu'r Sesiwn Ymgysylltu.
AWDUR	Rhys Glyn- Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd

1. **CEFNDIR**

1.1. Dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, bydd cynrychiolwyr Cyngor Gwynedd yn cynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu i drafod Polisi Iaith Addysg presennol y Cyngor. Bydd y sesiynau hyn yn gyfle i drafod ac i gasglu syniadau ac awgrymiadau ynglŷn â'r polisi, ac i ystyried a oes angen ei ddiwygio yng ngoleuni canlyniadau Cyfrifiad 2021 a nifer o ddatblygiadau polisi ym maes iaith ac addysg ar y lefel genedlaethol.

1.2 Bydd pob cynrychiolydd yn derbyn copi o Bolisi Iaith Addysg cyfredol Cyngor Gwynedd, ynghyd â dogfen fer trwy e-bost er mwyn gosod cyd destun i'r drafodaeth.

1.3 Er mwyn sicrhau cynrychiolaeth deg, rydym yn anelu i gael 5 Aelod o'r Pwyllgor Iaith a 5 Aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i fynychu'r cyfarfod ymgysylltu ynghylch Polisi Iaith Addysg Gwynedd. **Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar ddydd Mercher, 4ydd o Ragfyr rhwng 1:30 a 3:30 y prynhawn**. Gall aelodau ymuno o bell neu ar leoliad yn y Pencadlys.

1.4 Gofynnir i'r Pwyllgor Iaith ethol 5 Aelod o'u plith i fynychu ar y dyddiad a'r amser uchod. Dylid ymgeisio at sicrhau cynrychiolaeth o bob grŵp gwleidyddol.